Bethan Jenkins AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd

24 Hydref 2016

Annwyl Bethan

Diolch yn fawr i chi a'ch Pwyllgor am y cyfle i gyfarfod ar 6 Hydref. Roedd Ian a minnau'n falch i gael trafod materion yn ymwneud â dyfodol S4C gyda chi.

Nodaf isod ein hatebion i'r cwestiynau ychwanegol a dderbyniwyd gennych ar 19 Hydref. Gobeithiaf eu bod o gymorth i chi. Os oes gennych ragor o gwestiynau fe fyddwn yn falch o'u trafod gyda chi.

Perthynas S4C a'r BBC - Cydweithio Creadigol
Rydym yn falch iawn o'r berthynas greadigol a chydweithredol gref sydd wedi datblygu rhwng S4C a'r BBC yn ystod y blynyddoedd diwethaf - rhwng yr Awdurdod a'r Ymddiriedolaeth a rhwng swyddogion S4C a BBC Cymru.

Fe allaf eich sicrhau mai dymuniad S4C yw i'r berthynas hon barhau yn ystod cyfnod Siarter newydd y BBC. Nid oes cyswllt rhwng y trafodaethau sy'n ymwneud â strwythurau atebolrwydd ariannol ar gyfer y cyfnod nesaf ac awydd S4C a'r BBC i gydweithio ar brosiectau creadigol a chydweithredol.

Bydd parhad y berthynas yn ein galluogi i barhau i ddatblygu prosiectau cyffrous ar gyfer ein cynulleidfaoedd ac yn ein galluogi i gyd-elwa o arbenigedd y BBC - mewn meysydd megis yr iPlayer (sydd wedi bod yn ddatblygiad pwysig iawn i S4C), ac mewn meysydd yn ymwneud â chydweithio i greu arbedion ariannol, megis y cynllun i gyd-leoli gweithgareddau technegol S4C a'r BBC yng nghanolfan ddarlledu newydd y BBC yn Sgwâr Canolog Caerdydd. Eisoes gwelwyd cydweithio pwrpasol iawn ym maes rhaglenni, gyda chyd-drafod cyson i ddarganfod cyfleodd i gyd-gynhyrchu cyfresi a rhaglenni unigol a fydd o ddiddordeb i wylwyr yn y ddwy iaith ac ar y ddau wasanaeth. Rydym am weld y gwaith hwn yn parhau.

Perthynas S4C gyda'r Cynulliad Cenedlaethol
Rydym wedi ymrwymo ers sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol i gyflwyno tystiolaeth gerbron ei bwyllgorau ac i ymateb i ymgynghoriadau perthnasol, ac rwy'n falch iawn ein bod ni'n parhau i wneud hynny.

Mae'r cwestiwn o strwythurau a chyfrifoldebau atebolrwydd yn fater lle y mae angen i S4C, fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, osgoi mynegi barn ar faterion polisi a swyddogaethau cynrychiolwyr etholedig. Rydym wedi ymhelaethu ar y cymhlethdodau hyn yn ein tystiolaeth i Gomisiwn Silk yn y gorffennol.

Parc Tŷ Glas Llanisien Llanishen **Caerdydd** Cardiff **Cymru** Wales **CF14 5DU**
Ffôn Phone **+44(0)29 2074 7444 Ebost** Email **s4c@s4c.cymru Gwefan** Website **s4c.cymru**
Awdurdod S4C The Welsh Fourth Channel Authority

Serch hyn, rydym yn awyddus i S4C weithredu, a chael ei weld yn gweithredu, mewn modd atebol, cyfrifol a thryloyw, gan barchu'r strwythurau democrataidd etholedig sydd wedi eu creu ar gyfer cynrychioli pobl Cymru. Mae creu a chynnal perthynas adeiladol gyda'r Cynulliad a'i bwyllgorau yn rhan o hyn.

Mae eich cwestiwn yn cyfeirio'n benodol at gyflwyno Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol gerbron y Cynulliad, sy'n efelychu'r trefniadau arfaethedig ar gyfer y BBC yng nghyfnod y Siarter newydd.

Yn fuan wedi i mi gael fy mhenodi'n Gadeirydd Awdurdod S4C, fe wnaethom gynnig i Lywydd y Cynulliad diwethaf ein parodrwydd i gyflwyno Adroddiadau Blynyddol a Datganiadau Ariannol S4C i'r Cynulliad, mewn modd priodol. Am resymau ymarferol oedd yn ymwneud ag amser busnes y Cynulliad, ni lwyddwyd i gael y maen i'r wal, ond mae'r cynnig hwn gan S4C yn dal i sefyll.

Fe fyddem yn fodlon iawn, o fewn y cyd-destun statudol y mae S4C yn ddarostyngedig iddi wrth gwrs, i ail-gydio yn y drafodaeth i lunio proses ar gyfer cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiad Ariannol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

Diolch unwaith eto am eich diddordeb yng ngwaith S4C ac edrychaf ymlaen at barhau ein trafodaeth.

Yn gywir

Huw Jones
Cadeirydd, Awdurdod S4C

CC: Alun Davies, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, Llywodraeth Cymru
Rhodri Talfan Davies, Cyfarwyddwr Cymru, BBC
Ian Jones, Prif Weithredwr S4C